Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Adroddiad ymchwil 115

Tai a phobl anabl: rôl awdurdodau lleol

Lorna Adams, Sam Morris, Dominic Thomson, Helen Rossiter, Jonnie Felton, Phil Newbold a Zainab Hazel (IFF Research)

Mai 2018

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Yn 2017 cynhaliodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymchwiliad ar dai ar gyfer pobl anabl ym Mhrydain. Roedd yr ymchwiliad yn ymchwilio i argaeledd tai hygyrch ac addasadwy, y gwasanaethau cymorth o'i gwmpas ac i ba raddau mae hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol yn cael eu cyflawni.

Er mwyn llywio'r ymchwiliad hwn, gofynnwyd i bob awdurdod lleol ledled Prydain gwblhau arolwg ar-lein am eu darpariaeth o dai a chymorth cysylltiedig i bobl anabl. Roedd wyth deg tri y cant ohonynt yn gwneud hynny. Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn amlygu'r meysydd lle mae awdurdodau lleol yn perfformio'n dda ac yn llai da. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod awdurdodau lleol yn cael trafferth i ddiwallu anghenion tai pobl anabl mewn amgylchedd polisi a chyllid heriol iawn. Mae'r data a gedwir ganddynt, ar bobl anabl a'u stoc dai eu hunain, fel arfer yn wael; nid yw awdurdodau lleol yn adeiladu digon o dai hygyrch ac mae pobl anabl yn gorfod aros am amser maith naill ai i gael cartref hygyrch neu i gael addasiad wedi'i osod yn eu cartref presennol. Mae amrywiad sylweddol hefyd ym mherfformiad awdurdodau lleol. Mae'r canfyddiadau allweddol yn archwilio'r themâu hyn yn fanylach a fesul genedl ddatganoledig.

Canfyddiadau allweddol

1) Nid oes gan awdurdodau lleol yr wybodaeth i gartrefu pobl anabl yn iawn

- Mae bylchau mawr o ran bylchau data wedi'u hunanasesu mewn cysylltiad ag anghenion pobl anabl a hygyrchedd stoc dai. Roedd llai nag un o bob pump (16%) o'r awdurdodau yn teimlo bod eu data'n 'dda' neu'n 'dda iawn' at ddibenion amcangyfrif nifer y bobl anabl sy'n cael eu cartrefu mewn modd amhriodol ar hyn o bryd. Roedd llai na degfed (9%) o awdurdodau'n teimlo bod ganddynt syniad 'da' neu 'dda iawn' o gyfran y tai preifat sy'n hygyrch.

- Nid yw dwy ran o dair (65%) o awdurdodau lleol yn gallu amcangyfrif cyfran y tai cymdeithasol ac/neu fforddiadwy sy'n hygyrch, a dim ond tuag un o bob pump (22%) sydd â chofrestr tai hygyrch. Mae hyn yn uwch yng Nghymru (52%), lle caiff y defnydd o gofrestri ei annog yn weithredol, ac yn Llundain (42%), lle mae'r Cynllun Llundain yn mynnu bod pob cartref yn cael ei adeiladu hyd at safonau hygyrch.
- Er gwaethaf y diffyg gwybodaeth hwn, mae tua naw o bob deg (89%) yn eu hystyried eu hunain naill ai'n llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus wrth ddyrannu tai priodol i bobl anabl â namau penodol.
- Mae'r diffyg gwybodaeth hwn yn bwysig wrth bennu polisïau a blaenoriaethau gwario. Mae polisïau cynllunio ledled y DU yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cefnogi eu targedau â thystiolaeth. Yn Lloegr, oni bai fod awdurdod lleol yn gallu cynhyrchu data dibynadwy sy'n dangos yr angen lleol am dai hygyrch, y sefyllfa ragosodedig yw nad oes angen i'r datblygwr adeiladu unrhyw beth o gwbl.

2) Mae oedi hir wrth ddyrannu cartrefi hygyrch

- Mae hyd cyfartalog yr amser mae ymgeiswyr am gartrefi hygyrch yn ei dreulio ar gofrestr dai awdurdod lleol yn fwy na dwy flynedd (25 mis), o'i gymharu â 27 mis i'r rhai sy'n gwneud cais am dai cyffredinol. Roedd llai na hanner (42%) o awdurdodau lleol yn gallu datgan am faint o amser roedd pobl anabl yn aros.
- Er gwaethaf yr amseroedd aros hir mae pobl anabl yn eu profi, mae awdurdodau lleol yn graddio eu perfformiad eu hunain ynuchel. Mae naw deg pedwar y cant o awdurdodau yn credu eu bod yn effeithiol iawn neu'n eithaf effeithiol yn eu hasesiadau o anghenion tai pobl anabl unigol.

3) Mae dull rheoleiddio a goruchwylio cynllunio awdurdodau lleol yn wan

- Dim ond traean (32%) o awdurdodau a gytunodd fod datblygwyr fel arfer yn cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau hygyrchedd. Er gwaethaf y lefel isel hon, dim ond saith awdurdod (3%) a gymerodd gamau ffurfiol neu anffurfiol yn erbyn datblygwr nad oeddent yn darparu'r nifer ofynnol o gartrefi hygyrch ac/neu addasadwy hyd at y safon ofynnol yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gosod targedau ar gyfer tai hygyrch. Mae gan ychydig dros chwarter (28%) darged canran cyffredinol sydd mewn grym ar hyn o bryd. Dywedodd un ar bymtheg y cant nad ydynt yn gofyn i ddatblygwyr ddarparu tai hygyrch o gwbl.

- Dim ond 6% o awdurdodau lleol oedd yn monitro eu targed cartrefi hygyrch i sicrhau ei fod wedi'i gyflawni.
- Defnyddir asesiadau hyfywedd i benderfynu a yw datblygiad safle yn ariannol hyfyw. Gwelodd nifer o awdurdodau lleol y rhain yn her sylweddol wrth geisio cael datblygwyr i adeiladu cartrefi mwy hygyrch, ac roedd asesiadau'n aml yn arwain at gynnwys llai o gartrefi hygyrch mewn cynlluniau oherwydd bod datblygwyr yn pryderu am brisiau gwerthu eiddo isel neu werthoedd tir uchel.

4) Mae pobl anabl yn wynebu arosiadau maith i gaeladdasiadau wedi'u gosod ac nid yw llawer ohonynt yn cael y cymorth sydd arnynt ei angen

- Ar gyfartaledd, mae'n cymryd pum mis (22 wythnos) i awdurdodau lleol gymeradwyo a gosod addasiadau. Perfformiodd rhai awdurdodau lleol yn wael iawn: dywedodd tri awdurdod fod pobl yn wynebu amser aros o 18 mis neu'n fwy. Fodd bynnag, roedd rhai'n gweithredu'n llawer cyflymach. Dywedodd awdurdodau eu bod yn cael trafferth dod o hyd i isgontractwyr dibynadwy (38%), heb y gallu staffio i ddelio â cheisiadau (32%), neu fod y system yn rhy gymhleth i ymgeiswyr (31%).
- Yn gyffredinol, mae lefel uchel o dderbyn ceisiadau grant addasu, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn dyfarnu costau llawn addasiadau yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau yn ymddwyn yn wahanol: mae 6% o awdurdodau yn Lloegr yn gwrthod mwy na chwarter o'r holl geisiadau a wneir am addasiadau. Roedd awdurdodau Cymru a'r Alban yn llai tebygol o wrthod ceisiadau.
- Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan awdurdodau lleol am wrthod ceisiadau oedd y prawf modd. Cafodd y prawf hwn, a osodwyd ar lefel genedlaethol neu ddatganoledig y llywodraeth, ei feirniadu'n eang gan awdurdodau lleol fel un mympwyol a chymhleth. Mae caniatâd landlordiaid hefyd yn parhau i fod yn broblem sylweddol yng Nghymru a Lloegr (er yn llai felly yn yr Alban).
- Mae oddeutu pedair rhan o bump (78%) o awdurdodau lleol yn darparu cymorth tenantiaeth dewisol i gynorthwyo trigolion i aros yn eu cartrefi presennol (naill ai tai cymdeithasol y cyngor ei hunan neu'n ehangach). Fodd bynnag, dim ond chwarter (25%) o awdurdodau sy'n credu eu bod yn diwallu'r galw'n llawn. Mae llawer o'r farn bod hyn yn ymwneud â diffyg gyllidebol neu gyfyngiadau ar gyllid (28%), neu ddiffyg gallu gwasanaeth o'i gymharu â'r galw (22%).

5) Mae perfformiad awdurdodau lleol yn amrywiol

- Canfyddiad allweddol o'r ymchwil hon yw'r amrywioldeb mawr ym mherfformiad awdurdodau lleol ar nifer o fesurau, yn amrywio o osod targedau tai i gyflwyno addasiadau'n brydlon. Mae hyn yn awgrymu bod lle i awdurdodau lleol ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- Mae'r awdurdodau hynny sy'n fwy llwyddiannus wrth ddarparu tai ar gyfer pobl anabl yn tueddu i fod wedi'u lleoli mewn rhannau penodol o Brydain, gan awgrymu bod gan bolisïau ac arferion llywodraethau cenedlaethol a datganoledig rôl bwysig. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn yr Alban a Llundain, er enghraifft, yn teimlo bod ganddynt gymorth gwell o ran data o'i gymharu ag eraill ledled Prydain. Mae dwy ran o dair (62%) o awdurdodau'r Alban wedi comisiynu arolygon mewnol, o'i gymharu â thraean (35%) yn Lloegr. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o allu datgan y gyfran o dai lleol sy'n hygyrch (52% yn yr Alban a 46% yn Llundain, o'i gymharu â 30% ledled Prydain).
- Yn Llundain, mae rôl Awdurdod Llundain Fwyaf wrth ddarparu data ac annog targedau tai hygyrch yn eithaf amlwg: mae 84% o awdurdodau Llundain yn gosod targedau, ac mae llawer (er nad pawb) yn gofyn am dai 100% hygyrch, yn unol â'r Cynllun Llundain.
- Yng Nghymru, mae ymdrech i sefydlu cofrestrau tai hygyrch wedi cael effaith sylweddol, â 52% o awdurdodau lleol yn trefnu bod cofrestr ar gael. Yn yr Alban a Chymru, mae llywodraethau datganoledig hefyd wedi gwthio darparwyr tai cymdeithasol i ddarparu tai mwy hygyrch ac/neu addasadwy nag sy'n ofynnol mewn rheolau cynllunio, yn annibynnol ar awdurdodau lleol.
- Mae awdurdodau lleol bach yn profi trafferth i gyflenwi mewn rhai ardaloedd ac mae'n ymddangos bod awdurdodau mawr yn elwa ar arbedion maint pwysig. Roedd awdurdodau sydd â phoblogaethau mwy yn llawer mwy tebygol o gael aseswyr arbenigol mewnol a hyfforddir i ymdrin â cheisiadau am dai gan bobl anabl (78%) nag awdurdodau lleol â llai na 100,000 o drigolion (22%). Roedd awdurdodau â phoblogaethau mwy hefyd yn fwy tebygol o gadw cofrestri tai hygyrch (35% o'i gymharu â12%).

Casgliad

Mae'r ymchwil hon wedi canfod bod perfformiad awdurdodau lleol wrth ddarparu tai ar gyfer pobl anabl yn anghyson, ac yn aml yn annigonol. O bryder arbennig yw'r amseroedd aros maith mae pobl anabl yn eu hwynebu, yn ogystal â'r fframwaith

rheoleiddio a goruchwylio gwan o'r broses o adeiladu cartrefi hygyrch. Mae awdurdodau lleol yn gweithredu mewn amgylchedd anodd ac mae'r amrywiad mewn perfformiad fesul rhanbarth a chenedl ddatganoledig yn dangos bod cymorth gan haenau eraill llywodraeth yn bwysig iawn.

Gall amrywiad mewn perfformiad rhwng ardaloedd yn yr un sir neu ddinas fod yn eang, â phobl anabl mewn un rhanbarth o sir yn aros am fwy na blwyddyn am addasiad, tra bod eraill sydd ond ychydig filltiroedd i ffwrdd yn aros am ychydig wythnosau'n unig. Mae llawer o gwmpas i awdurdodau lleol ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac i wella profiad pobl anabl o geisio tai.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com.

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogaeth Cydraddoldeb, gwasanaeth am ddim ac annibynnol.

Gwefan	www.equalityadvisoryservice.com
Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 tan 19:00 (Llun i Wener) 10:00 tan 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018

ISBN: 978-1-84206-734-5

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018

ISBN: 978-1-84206-734-5

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission